






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gell Cyngor Technegol

Crynodeb o'r cyngor

30 Hydref 2020



Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb

30 Hydref 2020

Crynodeb o’r Prif Bwyntiau

- Mae’r Grŵp Cyngori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) yn amcangyfrif y gallai heintiadau fod yn tyfu rhwng 1% a 3% y dydd. Rhwng 1.0 ac 1.3 yw’r amcangyfrif diweddaraf o’r rhif atgynhyrchu (R_t) ar gyfer Cymru yn ôl rhagfynegiad SAGE.
- Mae’r achosion, y defnydd o welyau mewn ysbytai a’r marwolaethau wedi cynyddu ers yr wythnos diwethaf.
- Mae dau o’r dangosyddion sbarduno sy’n ymwneud â throsglwyddo wedi taro’r trothwy am fwy na phum wythnos. Mae’r dangosyddion ynghylch defnydd gwelyau mewn ysbytai yn dangos nad oes digon o welyau gofal critigol a/neu staff i gynnal brigiad mawr o COVID-19, yn ogystal â’r triniaethau eraill nad ydynt yn gysylltiedig â’r feirws.
- Yn ôl amcangyfrifon y Swyddfa Ystadegau Gwladol, roedd gan tua 1 person ym mhob 120 o’r boblogaeth gymunedol yng Nghymru COVID-19 yn yr wythnos 17 – 23 Hydref. Mae hyn wedi cynyddu o’r 1 person ym mhob 180 yr adroddwyd amdano yr wythnos diwethaf.
- Mae’r holl ddata ynghylch symudedd yn dangos gostyngiadau mawr iawn ers i’r cyfnod atal byr ddechrau, ac mewn rhai achosion dychwelodd y lefelau symudedd i’r lefelau a welwyd ddiwethaf ym mis Mai. Roedd y cyfyngiadau lleol wedi lleihau symudedd, ond mae’r cyfnod atal byr yn cael llawer mwy o effaith. Er y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli data hunangofnodedig, mae data arolygon yn dangos lefelau tebyg, ar y cyfan, o ddealltwriaeth o’r mesurau presennol a chydymffurfiaeth â hwy gan unigolion.
- Oherwydd yr oedi anorfod rhwng dod i gysylltiad â’r feirws a dod yn achos a gadarnhawyd, ni fyddai disgwyl i effaith y cyfnod atal byr ar ddangosyddion gwyliadwriaeth gael ei gweld am o leiaf 2-3 wythnos ar ôl y cyfnod hwn.
- Mae angen dull newydd, symlach ar gyfer y genedl i gyd, gyda newidiadau cynaliadwy mewn ymddygiad mewn sawl maes o’n bywydau er mwyn i R_t aros mor agos at 1 â phosibl.
- Cyhoeddir papurau SAGE a ystyriwyd gan y Cell a’r Grŵp Cyngori Technegol [yma](#).

Dangosyddion sbarduno cyfyngiadau

Trosglwyddo

- Dangosydd sbarduno cyfyngiadau 1: Terfyn uchaf yr amrediad o werthoedd R ar gyfer Cymru yn cyrraedd 1.5 neu’n uwch na hynny; amcangyfrif lechyd Cyhoeddus Cymru o’r gwerth yw **1.3**, a chonsensws SPI-M yw 1-1.3. Yn ôl consensws lechyd Cyhoeddus Cymru a SMI-M, nid yw’r amcangyfrifon yn taro’r trothwy mwyach ond disgwylir twf o hyd.
- Dangosydd sbarduno cyfyngiadau 2 > 40 o achosion am bob 100k (swm treigl 7 diwrnod) – yr amcangyfrif presennol o’r gwerth yw **260** am bob 100,000 (swm treigl 7 diwrnod); wedi taro’r trothwy ers 17 Medi 2020.
- Dangosydd sbarduno cyfyngiadau 3: Cyfradd bositifedd > 5% - yr amcangyfrif cyfredol o’r gwerth yw **19.5%**; wedi taro’r trothwy ers 27 Medi 2020.
- **Mae dau o’r dangosyddion sbarduno cyfyngiadau sy’n ymwneud â throsglwyddo wedi’u torri am fwy na phum wythnos – sy’n awgrymu bod nifer yr achosion yn debygol o fod heb reolaeth a bod nifer yr achosion yn debygol o barhau i dyfu fwyfwy. Dylid nodi nad yw effaith y cyfnod atal byr ar drosglwyddo yn debygol o gael ei gweld tan 21-28 diwrnod ar ôl iddo gael ei gyflwyno.**

Data fel ag yr oeddent ar 30 Hydref 2020.

Defnydd gwelyau mewn ysbytai

- Dangosydd sbarduno cyfyngiadau 4: Y cyfanswm ar gyfer defnydd gwelyau mewn ysbytai ar gyfer cleifion COVID-19 a gadarnhawyd yn cyrraedd 500 neu fwy - **754** ar hyn o bryd; wedi taro’r trothwy ers 23 Hydref 2020 ac yn dal i gynyddu.
- Dangosydd sbarduno cyfyngiadau 5: Y defnydd o ofal critigol ar gyfer cleifion COVID-19 a gadarnhawyd yn cyrraedd 70 neu fwy - **43** ar hyn o bryd ond yn cynyddu; heb daro’r trothwy.
- Dangosydd sbarduno cyfyngiadau 6: Y cyfanswm ar gyfer y defnydd o welyau gofal critigol (ar gyfer cleifion COVID a chleifion eraill) yn uwch na 150 - **152** ar hyn o bryd ond yn cynyddu ychydig; wedi taro’r trothwy ers 29 Hydref.

- Mae'r dangosyddion ategol ar nifer y cleifion ar beiriannau anadlu mecanyddol wedi gostwng ychydig i 111 ac mae nifer y cleifion ar bwysedd positif parhaus ar y llwybr anadlu (CPAP) wedi cynyddu i 56.
- **Mae'r dangosyddion hyn yn dangos bod y defnydd cyffredinol o welyau ar gyfer cleifion COVID mewn ysbytai yn uchel ac yn cynyddu. Mae cyfanswm y defnydd gwelyau mewn gofal critigol hefyd ychydig yn uwch na throthwy'r dangosydd sbarduno cyfyngiadau, ond nid oherwydd cleifion COVID y mae hyn yn bennaf. O'u hystyried gyda'i gilydd, nid oes digon o welyau gofal critigol a/neu staff i ymdopi â brigiad mawr o COVID, ar ben triniaethau eraill nad ydynt yn gysylltiedig â COVID. Dylid nodi ei bod yn annhebygol y bydd effaith y cyfnod atal byr ar ddefnydd gwelyau mewn ysbytai yn cael ei weld tan 21-28 diwrnod ar ôl iddo gael ei gyflwyno.**

Data ar 2 Tachwedd 2020

Cyfradd twf a'r rhif atgynhyrchu


- Mae SAGE yn amcangyfrif (28 Hydref) bod y gyfradd twf ddyddiol bresennol rhwng 0.01 a 0.05 yng Nghymru, sy'n dangos y gallai heintiadau fod yn cynyddu rhwng 1% a 5% y dydd.
- Mae amcangyfrif diweddaraf SAGE o'r rhif atgynhyrchu (R_t) ar gyfer Cymru (28 Hydref) rhwng 1.0 ac 1.3. Dangosir yr amcangyfrif o R_t fel amrediad heb amcangyfrif canolog.
- Dylid bod yn ofalus o hyd wrth ddehongli amcangyfrifon R_t a chyfraddau twf ar gyfer y DU oherwydd yr oedi anorfod sydd ynghlwm wrthynt, ac oherwydd bod y ffigurau hyn yn cuddio amrywiad yn nifer yr heintiadau a'r modd y mae'r cyfraddau trosglwyddo yn newid mewn rhai rhannau o'r wlad. Gall faint o brofi sydd ar gael fod yn gyfyngiad hefyd.
- Mae cyfradd twf sy'n is ond sy'n dal yn bositif, neu rif R_t uwch nag 1, yn parhau i ddangos bod yr epidemig yn tyfu fwyfwy.

Amser dyblu

- Mae SAGE yn amcangyfrif bod yr amseroedd dyblu ar gyfer heintiadau newydd ledled y DU rhwng 18 a 27 diwrnod. Mae anawsterau parhaus o ran dehongli data profi ac felly mae amcangyfrifon o amseroedd dyblu yn parhau'n ansicr. Mae heterogenedd sylweddol ar draws ardaloedd daearyddol ac mae'n bosibl y bydd amseroedd dyblu cyflymach mewn rhai ardaloedd.

Proffil oedran

- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer yr episodau COVID-19 a gadarnhawyd fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl wythnos casglu sampl a grŵp oedran. Mae'r achosion wedi bod yn cynyddu ym mhob grŵp oedran, gan barhau i dyfu yn nifer yr achosion a welir mewn grwpiau oedran hŷn.
- Mae'n bosibl fod mwy o brofi yn gysylltiedig â digwyddiadau mewn lleoliadau prifysgol wedi cynyddu'r achosion yn y grŵp oedran 18-25.




Ffynhonnell: Dangosfwrdd Llywodraeth Cymru, data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fel ag yr oeddent ar 02/11/20

Marwolaethau

- Yn ôl data amodol am dystysgrifau marwolaeth a ddarparwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, cofrestrwyd 47 o farwolaethau COVID-19 ymhlith trigolion Cymru gan nodi COVID-19 ar y dystysgrif marwolaeth yn ystod wythnos 42 (a ddaeth i ben ar 16 Hydref). Mae hyn yn gynnydd o 10 ers yr wythnos flaenorol.
- Mae'r nifer wythnosol o farwolaethau oherwydd pob achos yng Nghymru ar y lefelau y disgwylir iddynt fod yr adeg hon o'r flwyddyn, ac ni nodwyd unrhyw gynnydd sylweddol yn nifer y marwolaethau oherwydd pob achos,

- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer wythnosol y marwolaethau COVID-19 (unrhyw sôn amdano ar y dystysgrif marwolaeth) a'r cyfartaledd 5 mlynedd (2015-2019), ar gyfer yr wythnos yn dod i ben ar 16 Hydref 2020 (Wythnos 42).



Ffynhonnell: [Iechyd Cyhoeddus Cymru](https://www.gov.uk/coronavirus/wales)


Diweddariad rhyngwladol

- Mae'r dirywiad cyffredinol yn Ewrop yn parhau ers yr wythnos diwethaf. Ym mhob ardal a gwlad bron, mae nifer yr achosion yn codi er nad yw hyn yn cael ei adlewyrchu'n gyffredinol yn y cyfraddau ar gyfer defnydd gwelyau mewn ysbytai ac unedau gofal dwys – heblaw am un neu ddau o eithriadau. O ran marwolaethau, mae'r gyfradd yn cynyddu ar draws pob ardal ac mae'n codi'n gyflym iawn mewn rhai gwledydd yn nwyrain Ewrop.
- Ar ôl oedi ddechrau mis Hydref yn y cynnydd mewn achosion, mae Sbaen unwaith eto'n gweld yr achosion yn cynyddu yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Yn ystod yr 'oedi' a grybwyllir uchod, arafodd y cynnydd yn y gyfradd marwolaethau ond ni wnaeth droi i'r cyfeiriad arall. Disgwylir y bydd marwolaethau yn dilyn y cynnydd mewn achosion. Mae positifedd y profion tua 12%.
- Mae Ffrainc yn profi patrwm tebyg i Sbaen gyda chynnydd diwrthdro yn nifer yr achosion a chynnydd araf ond cyson yn y gyfradd marwolaethau. Mae positifedd y profion tua 12% i 13%.

- Mae'r patrymau yn yr Eidal yn debyg i'r hyn ydynt yn Ffrainc a Sbaen ond gydag ychydig o oedi o tua 2 wythnos, ond mae ei chyfradd bositifedd wedi cyrraedd 10% eisoes ac wedi codi yn ôl ffactor o 3 ers dechrau mis Hydref.
- Mae Lwcsembwrg, Portiwgal, Gwlad Belg (difrifol), yr Iseldiroedd (difrifol), Norwy (llai difrifol), Iwerddon, yr Almaen (llai difrifol), Denmarc (llai difrifol) i gyd yn dangos patrymau tebyg i rai Sbaen a'r Eidal.
- Yr hyn sy'n arwyddocaol yw nad yw'r gwledydd a grybwyllir uchod yn dangos cynnydd yr un mor fawr mewn cyfraddau marwolaeth; er bod cynnydd bach ar hyn o bryd yn y gwledydd hyn, nid ydynt yn agos at y cyfraddau marwolaeth a gafwyd ym mis Mawrth a mis Ebrill. Roedd y sefyllfa'n ddifrifol yn y rhan fwyaf o'r gwledydd hyn ystod y don gyntaf, yn wahanol i'r gwledydd y cyfeirir atynt isod.
- Mae gwledydd dwyrain Ewrop – Hwngari, Czechia, Slofacia, Romania, Bwlgaria, Taleithiau'r Balcan, Gwlad Groeg ac, i raddau llai, Taleithiau'r Baltig i gyd yn gweld cynnydd cyflym iawn yn nifer yr achosion a nifer y marwolaethau. Mae'r cyfraddau marwolaeth mewn rhai gwledydd (Czechia, Slofacia, Hwngari, Romania, Gwlad Pwyl) yn gyfartal a'r cyfraddau marwolaeth yn Sbaen a Ffrainc ar hyn o bryd, neu'n uwch na hwy. Yr hyn sy'n peri pryder yw siâp cromlin y gyfradd marwolaethau yn y gwledydd hyn, h.y. mae'r cromliniau yn codi'n llawer cyflymach nag yng ngwledydd gorllewin Ewrop, sy'n awgrymu y bydd eu cyfraddau marwolaeth yn cyfateb i'r lefelau a welwyd ym mis Ebrill yn Sbaen, Ffrainc a'r DU.
- Ychydig iawn neu gymharol ychydig o donnau cyntaf a gafodd y gwledydd hyn yn nwyrain Ewrop (ym mis Mawrth, Ebrill a Mai) o'u cymharu â gwledydd gorllewin Ewrop ac mae'r cyfraddau marwolaethau presennol sy'n codi'n gyflym yn awgrymu bod eu poblogaethau'n fwy 'agored', naill ai oherwydd bod cyfran uwch o bobl fwy agored i niwed, neu am nad yw eu systemau gofal iechyd wedi'u paratoi cystal.
- Mae Ffrainc wedi cyhoeddi bod y bydd ei chyfyngiadau symud yn cael eu dwysáu'n sylweddol ac yn dod i rym ar unwaith. Mae'r Almaen wedi cryfhau ei rheolaethau cenedlaethol mewn modd mwy cymedrol, a daeth y rhain i rym ddydd Llun 2 Tachwedd. Mae'n amlwg bod y rhan fwyaf o wledydd ledled Ewrop yn poeni'n fawr ac mewn perygl o golli unrhyw fath o reolaeth. Er hynny, nid yw'r sefyllfa yn hollol ddiobaith – mae Israel wedi dangos bod modd sicrhau rheolaeth a gostyngiad mawr mewn achosion a marwolaethau, ond dim ond drwy osod cyfyngiadau llym iawn am gyfnod o fis,
- Mae'r map isod yn dangos cyfradd gyfartalog yr achosion am bob 100,000 o bobl mewn cyfnod o 14 diwrnod yn wythnosau 42-43. Fel yr wythnos diwethaf, mae'n amlwg bod nifer yr achosion wedi codi i dros 120 o achosion am bob


100,000 o bobl mewn llawer o ranbarthau ac i dros 240 o achosion am bob 100k o bobl mewn nifer cynyddol o ardaloedd.

- Mae data ynglŷn â’r darlun ledled Ewrop, gan gynnwys cafeatau ynghylch oedi o ran data ac amrywiaeth mewn polisïau profi, ar gael [yma](#).



Glynu wrth y mesurau presennol a dealltwriaeth ohonynt

- Mae data diweddaraf [IPSOS MORI](#) ar gyfer y cyfnod 23–28 Hydref yng Nghymru yn dangos canlyniadau tebyg i’r hyn a welwyd bythefnos yn ôl o ran nifer o ymddygiadau lliniaru allweddol. Roedd y newid mwyaf yn y ganran a ddywedodd mai dim ond ar gyfer teithiau hanfodol yr oeddent yn gadael eu cartrefi, sef cynnydd o 46% i 57%. Dylid nodi mai’r unigolion eu hunain sy’n cofnodi a ydynt wedi glynu wrth y mesurau ai peidio, ac y bydd dealltwriaeth unigolion o’r rheolau a’r amgylchiadau sy’n berthnasol iddynt hwy yn effeithio ar y data. Roedd yr arolwg hefyd yn ymdrin â chyflwyno’r cyfnod atal byr.
- Mae’r ffigur isod yn cynrychioli data a gasglwyd ar-lein gan IPSOS MORI fel rhan o arolwg a gynhaliwyd mewn sawl gwlad ar lwyfan Global Advisor. Mae pob un o’r camau wedi cynnwys oddeutu 600 o ymatebwyr yng Nghymru. Mae’r sampl yn fras yn cynrychioli’r boblogaeth oedolion 16-74 oed. Mae’r data’n cael eu pwysoli i adlewyrchu proffil oedran a rhyw poblogaeth Cymru rhwng 16 a 74 oed. Mae gan bob sampl ffin cyfeiliornad. Ar gyfer sampl o tua 500, mae hyn yn +/-4.8 pwynt canran.




- Mae canlyniadau diweddaraf yr [Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ynghylch Iechyd a Llesiant yn ystod y Mesurau Coronafeirws](#) ar gyfer y cyfnod 19-25 Hydref yn dangos bod 58% o bobl yn dweud eu bod yn deall y cyfyngiadau yn eu hardal leol yn 'dda iawn'. Mae hyn wedi cynyddu o 48% yn yr arolwg blaenorol (5-11 Hydref). Dywedodd 32% arall e bod yn deall y cyfyngiadau yn 'eithaf da'. Mae'r canlyniadau hefyd yn dangos bod 47% o bobl wedi dweud eu bod yn dilyn y cyfyngiadau coronafeirws yn 'gyfan gwbl' a bod 42% arall eu bod yn cydymffurfio â'r mwyafrif. Mae hyn yn debyg iawn i [ganlyniadau'r astudiaeth gymdeithasol covid](#).

Symudedd

- Mae llawer o'r data symudedd ar gyfer Cymru yn ymwneud â'r dyddiau cyntaf ar ôl dechrau'r cyfnod atal byr ar 23 Hydref (ac eithrio data O2, sy'n cynnwys hyd at 23 Hydref). Mae'r holl ddata'n dangos cwympiadau mawr iawn ers i'r cyfnod atal byr ddechrau – mae symudedd wedi dychwelyd i'r lefelau a welwyd ddiwethaf ym mis Mai mewn rhai achosion. Roedd y cyfyngiadau lleol wedi lleihau symudedd, ond mae'r cyfnod atal byr yn cael llawer mwy o effaith. Gwelir gostyngiadau bach (yn bennaf) mewn symudedd yn y DU yn ystod yr wythnos ddiwethaf.
- Gwelir gostyngiadau mawr yn [symudedd defnyddwyr Facebook](#) yng Nghymru yn yr wythnos hyd at 31 Hydref, sef 35% yn is na'r llinell sylfaen, i lawr o'r ffigur o 12% a welwyd yn yr wythnos hyd at 23 Hydref. Canran y defnyddwyr a oedd yn aros lle'r oeddent (yn agos i'w cartref) oedd 37% – i fyny o'r ffigur o 25% a welwyd yn yr wythnos hyd at 23 Hydref. Mae'r ddau fesur hyn yn debyg i'r

lefelau a welwyd ddiwedd mis Mai. Y llinell sylfaen yw’r gwerth canolrifol ar gyfer yr un diwrnod o’r wythnos, yn ystod y cyfnod 4 wythnos rhwng 2 Chwefror a 29 Chwefror, 2020.

- [Mae data Apple](#) ar gyfer yr wythnos hyd at 31 Hydref yn dangos bod ceisiadau am gyfarwyddiadau gyrru yng Nghymru wedi gostwng yn sylweddol o gymharu â’r wythnos hyd at 23 Hydref; 68% o’r llinell sylfaen (i lawr o 88%). Dyma’r isaf ers diwedd mis Mai. Mae ceisiadau am gyfarwyddiadau cerdded a cheisiadau am gyfarwyddiadau trafndiaeth gyhoeddus ill dau wedi gostwng yn sydyn dros yr un cyfnod. Y llinell sylfaen yw 13 Ionawr 2020.
- Mae [data symudedd Google](#) hyd at wythnos 27 Hydref yn dangos cynnydd yn y data preswyl yn ystod yr wythnos ddiwethaf (h.y. pobl yn treulio mwy o amser gartref na’r wythnos diwethaf, codiad o 9% uwchlaw’r llinell sylfaen i 13%). Mae categorïau eraill yn dangos cynnydd bach yn bennaf. Dros benwythnos 24/25 Hydref, roedd y categori preswyl ar ei uchaf ar benwythnos ers 23/24 Mai. Roedd manwerthu a hamdden ar eu hisaf ers penwythnos 9/10 Mai.
- Mae’r ffigur isod yn dangos y newid o ran symudedd yng Nghymru gan ddefnyddio data symudedd Google. Mae’r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd yr awdurdodau lleol hynny sydd â data. Y llinell sylfaen yw’r gwerth canolrifol, ar gyfer y diwrnod cyfatebol o’r wythnos, yn ystod y cyfnod 5 wythnos o 3 Ionawr i 6 Chwefror 2020. Nid yw’r data ar gyfer sawl categori ar gael ar gyfer 17 Awst – 10 Medi oherwydd nad yw’r data’n bodloni trothwyon ansawdd.



- Mae data ffonau symudol dienw a chyfanredol o 02 i 23 Hydref wedi dangos, ar ôl cyflwyno’r cyfyngiadau lleol, fod gostyngiadau amlwg mewn teithiau ym mhob ardal yn ystod y 2 ddiwrnod cyntaf ar ôl i’r cyfyngiadau ddechrau. Fodd

bynag, mae teithiau yn yr ardaloedd hynny (ar gyfartaledd) wedi dychwelyd yn raddol i’r hyn oeddent cyn y cyfyngiadau lleol, fis ar ôl i’r cyfyngiadau hynny ddechrau. Fodd bynnag, gan fod y cyfyngiadau lleol wedi dechrau ar adegau gwahanol i’w gilydd, dylid nodi nad oedd pob ardal wedi dychwelyd i’r un lefelau â chyn y cyfyngiadau lleol, gan fod rhai o’r cyfyngiadau wedi’u cyflwyno’n fwy diweddar nag eraill.

- Gwelwyd cynnydd bach mewn teithiau yng Nghymru yn ystod yr wythnos diwethaf, a gostyngiad bach yn y DU. Drwy’r rhan fwyaf o’r haf, roedd y ffigurau ar gyfer teithiau yn debyg yng Nghymru a’r DU o’u cymharu â mis Mawrth, ond maent yn is yng Nghymru ers i’r cyfyngiadau lleol ddechrau – tua 26% yn is nag yr oeddent yn wythnos gyntaf mis Mawrth, o’i gymharu â 22% yn y DU.

Ymchwil

- Ar hyn o bryd mae 6172 o gleifion o Gymru wedi’u recriwtio i astudiaethau iechyd cyhoeddus brys COVID-19, sy’n gynydd o 188 yn y 7 diwrnod diwethaf.

Crynodeb gwyliadwriaeth ac epidemiolegol wythnosol COVID-19 gan lechyd Cyhoeddus Cymru

(Ar 28 2020)

- Roedd cyfran y galwadau i GIG 111 ac NHS Direct yn ymwneud â symptomau COVID-19 posibl yn parhau’n sefydlog o gymharu â’r wythnos flaenorol.
- Gostyngodd ymgynghoriadau meddygon teulu ar gyfer Heintiau Anadlol Acíwt (ARI) yn wythnos 43 ac arhosodd ymgynghoriadau meddygon teulu ar gyfer amheuaeth o COVID-19 yn sefydlog.
- Ar hyn o bryd, mae galwadau ambiwlans sydd o bosibl yn gysylltiedig â COVID-19 yn sefydlog.
- Cynyddodd nifer yr episodau COVID-19 a gadarnhawyd yn genedlaethol o gymharu â’r wythnos flaenorol ac roedd positifedd y profion dros 15%.
- Yn ystod wythnos 43, cynyddodd nifer yr achosion ar draws pob grŵp oedran; roedd nifer yr achosion ar eu huchaf ymhlith y rhai 18-25 oed.
- Mae nifer yr achosion a gadarnhawyd a nifer y profion positif yn parhau i godi mewn llawer o ardaloedd byrddau iechyd yng Nghymru.
- Mae achosion a gadarnhawyd mewn cleifion sy’n cael eu profi wrth gael eu derbyn i’r ysbyty ac achosion a gadarnhawyd mewn cleifion mewnol wedi cynyddu yn ystod yr wythnosau diwethaf, yn enwedig ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg.

- Mae data gwyliadwriaeth diweddar yn awgrymu bod heintiadau COVID-19 yng Nghymru wedi'u gwasgaru'n eang yn ddaearyddol, a bod y rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau lleol yn gweld tueddiadau cynyddol mewn achosion a gadarnhawyd a chanran yr episodau profi positif ar gyfer SARS-CoV2.
- Adroddir am niferoedd cynyddol o ddigwyddiadau, yn bennaf mewn cartrefi gofal preswyl, lleoliadau ysgol ac ymhlith myfyrwyr prifysgol.
- Yn dilyn cynnydd yn COVID-19 ar draws holl ranbarthau Cymru, cyflwynwyd cyfyngiad 'cyfnod atal byr' ledled Cymru ar deithio nad yw'n hanfodol y tu allan i'r cartref ddydd Gwener 23 Hydref a bydd ar waith tan ddydd Llun 9 Tachwedd.
- Mae digwyddiadau'n parhau mewn oedolion ifanc o oedran myfyrwyr prifysgol gydag adroddiadau bod y feirws yn cael ei drosglwyddo mewn llety a rennir. Gwelwyd tueddiadau cynyddol yn y rhan fwyaf o grwpiau oedran eraill yn ystod y pythefnos diwethaf.
- Mae'r marwolaethau oherwydd pob achos ar y lefelau a ddisgwyllir yr adeg hon o'r flwyddyn. Gwelwyd cynnydd yn y marwolaethau mewn achosion a gadarnhawyd yn yr ysbyty.

Defnydd o welyau mewn ysbytai

- Mae'r Ffigur isod yn dangos y defnydd o welyau mewn ysbytai oherwydd achosion COVID-19 a gadarnhawyd, yn ystod ton gyntaf ac ail don y pandemig (cyfartaledd treigl 7 diwrnod, fel ag yr oedd ar 26 Hydref). Mae'r cyfanswm o ran defnydd gwelyau ysbytai ar gyfer cleifion COVID-19 a gadarnhawyd wedi bod yn codi ac mae wedi mynd y tu hwnt i'r 'dangosydd sbarduno' o 500 claf y cytunwyd arno.




- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y cleifion mewn unedau gofal dwys oherwydd achosion o COVID-19 a gadarnhawyd yn ystod ton gyntaf ac ail don y pandemig (cyfartaledd treigl 7 diwrnod, ar 26 Hydref). Nid yw'r defnydd o welyau mewn unedau gofal dwys wedi taro trothwy'r 'dangosydd sbardun' eto, ond mae'n dangos tuedd ar i fyny. Mae cyfanswm y defnydd o welyau gofal critigol (ar gyfer cleifion COVID a chleifion eraill) ychydig yn uwch na'r dangosydd sbarduno y cytunwyd arno, ond yn cynyddu rhywfaint.




- Mae'r tabl isod yn rhoi manylion y defnydd gwelyau mewn unedau gofal dwys ym myrddau iechyd Cymru. Mae nifer y cleifion COVID-19 mewn unedau gofal dwys wedi cynyddu ers yr wythnos diwethaf.
- Mae'r golofn gyntaf yn y tabl yn dangos yr holl ddefnydd o welyau mewn unedau gofal dwys (cleifion COVID-19 a chleifion eraill) pan ystyrir capasiti ychwanegol posibl.
- Mae'r ffigurau ynghylch defnydd gwelyau yn seiliedig ar gapasiti'r unedau gofal dwys y cawsom wybod amdano gan y byrddau iechyd lleol (cyfanswm o 257 o welyau ar y dyddiad adrodd). Fodd bynnag, unwaith yr eir y tu hwnt i tua 150 o welyau yn cael eu defnyddio mewn unedau gofal dwys, mae'n golygu na ellir eu staffio yn unol â'r gymhareb nyrso 1:1 sy'n ofynnol ar gyfer Lefel 3, a bydd gofal cleifion yn cael ei effeithio. Hefyd, nid yw hyn yn ystyried amrywiadau rhanbarthol; mae rhai unedau gofal dwys yn agos at eu capasiti ac nid yw cludo cleifion COVID-19 sy'n ddifrifol wael mewn ambiwlans yn ddymunol oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol.
- Mae'r tabl isod bellach yn cynnwys yr holl ddefnydd o welyau mewn unedau gofal dwys fel canran o nifer y gwelyau y mae modd eu staffio ar gymhareb 1:1 (yn seiliedig ar y ffaith fod 152 ar gael ledled Cymru).
- Diweddarwyd y data ysbytai ar 5/11/2020

Bwrdd Iechyd	Defnydd gwelyau unedau gofal dwys lefel 3 %	Defnydd gwelyau unedau gofal dwys lefel 3 (% o'r gwelyau cymhareb 1:1 sy'n cael eu defnyddio)	Cleifion yr amheuir bod COVID-19 arnynt	Cleifion sydd wedi profi'n bositif am COVID-19
Cymru	58%	97%	7	48
Aneurin Bevan (ABUHB)	49%	74%	1	8
Betsi Cadwaladr (BCUHB)	71%	115%	0	5
Cwm Taf Morgannwg (CTMUHB)	77%	132%	2	19
Caerdydd a'r Fro (CVUHB)	38%	104%	0	7
Hywel Dda (HDUHB)	44%	64%	1	1
Bae Abertawe (SBUHB)	86%	89%	3	8


- Mae'r Ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer y bobl sydd wedi cael prawf positif ar gyfer COVID-19 ac sydd mewn unedau gofal dwys mewn ysbytai ar draws y gwahanol fyrddau iechyd yng Nghymru.




- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a dderbyniwyd i'r ysbyty yr amheuir bod COVID-19 arnynt neu y cadarnhawyd hynny. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny.



- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a ryddhawyd o'r ysbyty yr amheuir neu y cadarnhawyd eu bod wedi cael COVID-19. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny.



- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a dderbyniwyd i'r unedau gofal dwys yr amheuir bod COVID-19 arnynt neu y cadarnhawyd hynny. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny.



Ffon fesur tebygolrwydd Pennaeth y Proffesiwn Asesu Gwybodaeth (PHIA)

- Os yw hynny'n briodol, bydd y Gell Cyngor Technegol yn mynegi tebygolrwydd neu hyder yn y cyngor a ddarperir gan ddefnyddio ffon fesur tebygolrwydd PHIA i sicrhau cysondeb ar draws gwahanol elfennau'r cyngor a roddir.

